COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

**Bwrdd Cyfarwyddwyr, 20 Mawrth 2024 (10:00 – 14.25), Prifysgol Bangor**

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| **Aelodau'r Bwrdd:** | Dr Aled Eirug (Cadeirydd) |
| | Ann Beynon |
| | William Callaway |
| | Nia Elias |
| | Rhys Evans |
| | John Hayes |
| | Yr Athro Anwen Jones |
| | Angharad Roberts |
| | Llinos Roberts |
| | Yr Athro Enlli Thomas |
| **Sylwedydd:** | Alan Jones (Llywodraeth Cymru) (cyfarfod llawn) |
| **Swyddogion:** | Dr Ioan Matthews (Prif Weithredwr) |
| | Gwenllïan Griffiths (Cyfarwyddwr Polisi, Cyfathrebu ac Ymgysylltu) |
| | Dr Dylan Phillips (Cyfarwyddwr Addysg Uwch ac Ysgrifennydd) |
| | Nia Brown (Swyddog Llywodraethiant) |
| | Mari Fflur (Uwch Reolwr Datblygiadau Strategol) |
| | Rebecca Williams (Uwch Reolwr Sgiliau Iaith a Chynllunio Gweithlu) |
| **Ymddiheuriadau:** | Meri Huws, Yr Athro Pedr ap Llwyd |

**Cofnodion Cyfarfod 20 Mawrth 2024 – cyfarfod llawn**

## 1. Eitem 1 – Croeso, ymddiheuriadau a materion rhagarweiniol

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
| --- | --- | --- | --- |
| 1.1 | Estynnwyd croeso i bawb a oedd yn bresennol yn y cyfarfod. | | |
| 1.2 | Croesawyd Mari Fflur a Rebecca Williams i'w cyfarfod cyntaf fel uwch reolwyr. | | |
| 1.3 | Nodwyd ymddiheuriadau fel uchod. | | |
| 1.4 | Nodwyd y byddai Suzanne Lewis (Uwch Reolwr Gwasanaethau Corfforaethol), Dr Lowri Morgans (Uwch Reolwr Addysg Bellach a Phrentisiaethau) a Gwenllïan Owen (Uwch Reolwr Addysg Uwch) yn gwrando ar y cyfarfod. | | |

## 2. Eitem 2 – Datganiadau o ddiddordeb

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
| --- | --- | --- | --- |
| 2.1 | Atgoffwyd yr aelodau o'r drefn lle gofynnir i aelodau nodi unrhyw ddatganiadau o | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ddiddordeb ychwanegol at y rheiny a nodwyd eisoes yn y Gofrestr Buddiannau. | | |

### 3. Eitem 3 – Adroddiad y Prif Weithredwr

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 3.1 | Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig y Prif Weithredwr ar weithgareddau diweddar. | | |
| 3.2 | **Cynllun Strategol**<br>Adroddwyd y dechreuwyd ar y gwaith o adolygu Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau'r Coleg. Bydd diweddariad i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf. | Diweddariad ar yr adolygiad i'r Bwrdd | 3 Gorffennaf 2024 |
| 3.3 | **Darpariaeth chweched dosbarth**<br>Adroddwyd y bydd angen i'r Coleg ystyried darpariaeth chweched dosbarth yn sgil y dynodiad a sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY). Adroddwyd ar drafodaethau gyda CYDAG a gwahoddwyd y Prif Swyddog i ymuno â'r Bwrdd Strategol ôl-16. | Eitem agenda ar ddarpariaeth chweched dosbarth ac ôl-16 | 3 Gorffennaf 2024 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3.4 | **Cyllideb y Coleg 2024/25**<br>Adroddwyd bod Gweinidog y Gymraeg ac Addysg wedi cadarnhau ar 11 Ionawr 2024 y byddai'r Coleg yn derbyn cyllideb fflat gan Lywodraeth Cymru yn 2024/25.<br>Adroddwyd na fyddai'r £840,000 ychwanegol a ymrwymwyd iddo fel rhan o gytundeb cydweithio rhwng y Llywodraeth a Phlaid Cymru ar gyfer gweithredu camau nesaf strategaeth Addysg Bellach a Phrentisiaethau ar gael yn 2024/25. Serch hynny, mae dogfennaeth a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth a Phlaid Cymru yn nodi bwriad i ail-broffilio'r cyllid hwn ar gyfer cyllideb 2025/26. | | |
| 3.5 | **Adroddiad monitro Llywodraeth Cymru**<br>Nodwyd yr adroddiad monitro (Rhagfyr 2023) a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru. | | |
| 3.6 | **Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol**<br>Adroddwyd bod y Memorandwm o Gyd-ddealltwriaeth wedi'i arwyddo gyda'r Ganolfan a bydd yn cael ei adolygu'n flynyddol. Adroddwyd hefyd ar y lleihad yn y cyllid a ddarperir gan y | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Ganolfan, drwy'r Coleg, ar gyfer Cymraeg Gwaith a'r newidiadau yn deillio o hynny. | | |
| 3.7 | **Addysg Uwch**<br>Adroddwyd ar y cyfarfodydd cynllunio gyda'r sefydliadau addysg uwch. Pwrpas y cyfarfodydd yw derbyn diweddariad ar gynlluniau strategol y sefydliadau ar gyfer y Gymraeg; trafod cynlluniau ar gyfer y premiwm cyfrwng Cymraeg 2023/24; a rhannu ymchwil agweddau myfyrwyr. | | |
| 3.8 | **Addysg Gychwynnol Athrawon**<br>Adroddwyd bod trafodaethau'n parhau ynghylch maes Addysg Gychwynnol Athrawon yng nghyd-destun y Bil Addysg Gymraeg. | | |
| 3.9 | **Y Gymraeg fel pwnc**<br>Adroddwyd y bydd cyfarfod yn cael ei drefnu gyda rhanddeiliaid allweddol i drafod y camau nesaf ar gyfer y Gymraeg fel pwnc. | | |
| 3.10 | **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth**<br>Adroddwyd ar weithredu'r Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth gyda manylion llawn yn yr adroddiad a gylchredwyd ac | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | a ddarparwyd i'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol ar 28 Chwefror 2024. | | |
| 3.11 | **Adnoddau Dynol**<br>Adroddwyd ar yr ail-strwythuro mewnol er mwyn ymateb i ehangu cyfrifoldeb y Coleg i gynghori CADY ar faterion yn ymwneud â'r Gymraeg gyda manylion llawn yn yr adroddiad a gylchredwyd ac a ddarparwyd i'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol ar 28 Chwefror 2024. | | |
| 3.12 | **Cyfreithwyr y Coleg**<br>Nodwyd, yn dilyn proses gaffael, y penodwyd Darwin Gray fel cyfreithwyr y Coleg am bum mlynedd rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2029. | | |

**4. Eitem 4 – Cofnodion 22 Tachwedd 2023**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 4.1 | Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd 2023. | | |
| 4.2 | Yn dilyn cwestiwn gan aelod o'r Bwrdd, adroddwyd bod cadeirydd Bwrdd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (y Fonesig Athro | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Julie Lydon) a'r Prif Weithredwr, Simon Pirotte, wedi eu gwahodd i'r cyfarfod ond mai'r Prif Weithredwr fyddai'n dod.  Cytunwyd y byddai modd estyn gwahoddiad arall i'r Fonesig Julie Lydon maes o law. | | |

**5. Eitem 6 – Materion y Cadeirydd**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 5.1 | Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi bod i bob un o gyfarfodydd is-bwyllgorau'r Bwrdd, ar wahân i'r Bwrdd Academaidd, yn ystod tymor y gaeaf. | | |
| 5.2 | Adroddodd y byddai'n cyfarfod cadeirydd Cyngor Prifysgol Aberystwyth a'r Is-Ganghellor newydd ar 15 Mai 2024. | | |

**6. Eitem 7 – Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 6.1 | **Cofnodion (Eitem 7i)** | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2024.<br>Adroddodd yr Ysgrifennydd:<br>• ar gyfarfod cyntaf Huw Landeg Morris a Dr Caroline Turner, aelodau newydd i'r pwyllgor<br>• y trafodwyd strategaeth benodi i'r Bwrdd yn lle William Callaway a fydd yn dod i ddiwedd ei ail dymor ym mis Tachwedd 2024<br>• ar y broses i ddiweddaru'r wybodaeth am sgiliau'r Bwrdd drwy'r holiadur a gylchredir ar 22 Mawrth a'r adroddiad a gyflwynir i'r pwyllgor ar 24 Ebrill 2024 | | |
| 6.2 | **Dogfen Llywodraethiant (Eitem 7ii)**<br>Derbyniwyd y ddogfen llywodraethiant a oedd wedi'i ddiweddaru i gynnwys y strwythur staffio newydd yn dilyn yr ail-strwythuro mewnol.<br>Yn dilyn cwestiwn am weithdrefnau chwythu'r chwiban nodwyd bod polisïau adnoddau dynol y Coleg wedi'u hadolygu'n ddiweddar gan gyfreithwyr y Coleg. Bydd adroddiad ar y polisïau | Cytunwyd i ddarparu mynediad at bolisïau adnoddau dynol i aelodau'r | Tymor yr haf |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol nesaf ar 12 Mehefin 2024.<br>Nododd yr Ysgrifennydd bod gwaith yn parhau i fireinio gweithdrefnau i gefnogi strwythurau llywodraethiant y Coleg. | Bwrdd, er gwybodaeth, ar ôl cwblhau'r cylch adolygu | |
| 6.3 | **Ail-benodi aelod i'r Pwyllgor Archwilio a Risg**<br>Cadarnhawyd argymhelliad y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant, yn dilyn ymgynghori gyda chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg, i ail-benodi Siân Lloyd-Jones am ail dymor o 1 Ebrill 2024 hyd at 31 Ebrill 2028. | | |
| | *Ar y pwynt hwn ymunodd Nia Elias yn y cyfarfod.* | | |

## 7. Eitem 8 – Pwyllgor Archwilio a Risg

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 7.1 | **Cofnodion (Eitem 8i)**<br>Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2024.<br>Adroddodd William Callaway, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg: | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • bod y pwyllgor yn canmol y cynnydd i weithredu'r argymhellion ym maes TG a diogelwch seibr yn dilyn archwiliad mewnol<br>• ar arbenigeddau aelodau allanol y pwyllgor ym meysydd diogelwch seibr, cyfrifeg ac ar lefel prif weithredol<br><br>Nodwyd bod Ann Beynon wedi darparu sylwadau cyn y cyfarfod gan na allai fod yn bresennol yn y cyfarfod. | | |
| 7.2 | **Y Gofrestr Risg (Eitem 8ii)**<br><br>Rhoddodd cadeirydd y pwyllgor ddiweddariad ar y Gofrestr Risg a'r camau i liniaru risgiau. | | |
| 7.3 | **Ail-benodi Archwilwyr Mewnol**<br><br>Cymeradwywyd ail-benodi TIAA fel Archwilwyr Mewnol y Coleg, yn dilyn proses gaffael, am bedair blynedd o 1 Ebrill 2024 hyd at 31 Mawrth 2029. | | |

**8. Eitem 9 – Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 8.1 | **Cofnodion (Eitem 9)** | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2024. | | |
| 8.2 | **Cyllideb y Coleg 2023/24**<br>Rhoddodd yr Ysgrifennydd ddiweddariad ar gyllideb y Coleg ar gyfer 2023/24.<br>Adroddwyd y bydd y swyddogion yn monitro'r gyllideb i sicrhau bod y gwariant mor agos â phosib at yr incwm a dderbyniwyd erbyn diwedd y flwyddyn. | | |
| 8.3 | **Buddsoddiadau**<br>Adroddwyd nad oes bwriad i dynnu ar incwm o'r Buddsoddiadau ar gyfer gwariant cyllideb yn ystod 2023/24. | | |

## 9. Eitem 10 – Bwrdd Academaidd

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 9.1 | **Cofnodion (Eitem 10)**<br>Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 7 Chwefror 2024. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Adroddodd yr Athro Enlli Thomas, Cadeirydd y Bwrdd Academaidd ar:<br>• ddiweddariadau gan y swyddogion ar gomisiynu adnoddau iechyd a gofal, adroddiad agweddau myfyrwyr a data sgiliau iaith<br>• sicrhau bod prifysgolion yn rhaeadru gwybodaeth yn effeithiol | | |

**10. Eitem 11 – Bwrdd Strategol Ôl-16**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 10.1 | **Cofnodion (Eitem 11)**<br>Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Bwrdd Strategol Ôl-16 a gynhaliwyd ar 21 Chwefror 2024.<br>Adroddodd y Prif Weithredwr:<br>• y cafwyd cyflwyniadau gan lysgenhadon myfyrwyr a gan y Cyngor Gweithlu Addysg<br>• y bwriad i adolygu aelodaeth y Bwrdd Strategol ôl-16<br>• ar y bwriad i ddatblygu rôl Is-Gadeirydd y Bwrdd Strategol ôl-16 | | |

## 11. Eitem 12 – Cyllideb y Coleg 2024/25

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 11.1 | **Cyllideb ddrafft ar gyfer 2024/25 (Eitem 12i)**<br>Cyflwynwyd crynodeb o gyllideb ddrafft y Coleg ar gyfer 2024/25 gan yr Ysgrifennydd.<br>Adroddwyd bod y gyllideb ddrafft yn seiliedig ar y ddealltwriaeth mai cyllideb fflat o 2023/24 (sef heb y cynnydd ychwanegol o £840,000 a oedd i fod ar gyfer trydedd blwyddyn grant amlinellol 2022-25) fydd y grant gan Lywodraeth Cymru.<br>Adroddwyd bod rhai newidiadau i'r gyllideb ddrafft ers cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol ar 28 Chwefror 2024, ac addaswyd y gyllideb i gynnwys cyfanswm o £200,000 ychwanegol ar gyfer prosiectau Addysg Bellach a Phrentisiaethau.<br>Ers cylchredeg y papurau i aelodau'r Bwrdd bu newid yn amserlen darn o waith sydd i'w gwblhau gan Estyn, a bydd y manylion yn y Llythyr Grant gan Lywodraeth Cymru a ddisgwylir yn fuan. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Adroddodd Alan Jones ar benderfyniad Llywodraeth Cymru i sefydlu Adnodd, sef corff i gomisiynu adnoddau. Bydd cyfarfod yn cael ei drefnu gyda Phrif Weithredwr Adnodd yn y dyfodol agos. | | |
| 11.2 | Yn dilyn trafodaeth fer cymeradwywyd y gyllideb. | | |
| 11.3 | **Rhestr Grantiau Cynllunio Academaidd Addysg Uwch 2024/25 (Eitem 12ii)**<br>Cyflwynodd yr Ysgrifennydd grynodeb o grantiau cynllunio academaidd addysg uwch ar gyfer 2024/25.<br>Adroddwyd ar yr amserlen a'r broses dyfarnu manwl. | | |
| 11.4 | Derbyniwyd grantiau cynllunio academaidd addysg uwch ar gyfer 2024/25. | | |

**12. Eitem 13 – Llythyr Grant Llywodraeth Cymru**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 12.1 | Adroddwyd y disgwylir Llythyr Grant terfynol gan Lywodraeth Cymru yn fuan. | Cylchredeg y Llythyr Grant i aelodau'r Bwrdd. | Pan ddaw i law |

## 13. Eitem 14 – Materion cyfansoddiadol

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 13.1 | **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (Llys) y Coleg**<br>Rhoddodd yr Ysgrifennydd adroddiad llafar ar gyfarfod blynyddol y Coleg a gynhaliwyd ar 18 Mawrth 2024. | | |
| 13.2 | Adroddwyd y derbyniwyd Adroddiad Blynyddol 2022/23 a chyfrifon blynyddol y Coleg hyd at 31 Mawrth 2023. | | |

## 14. Eitem 15 – Unrhyw fater arall

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 14.1 | **Holiadur y Bwrdd**<br>Atgoffwyd yr aelodau y bydd holiadur y Bwrdd yn cael ei gylchredeg ddiwedd yr wythnos i'w gwblhau erbyn 2 Ebrill 2024. | | |
| 14.2 | **Eisteddfod Genedlaethol 2024**<br>Adroddwyd y bydd gofod y Coleg ar faes yr Eisteddfod yn llai eleni. Rhennir yr amserlen maes | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | o law. Bydd Dr Siân Rhiannon Williams yn traddodi'r ddarlith flynyddol. | | |

**15. Eitem 16 – Cyfarfodydd nesaf**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 15.1 | Nodwyd dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf:<br>• 3 Gorffennaf 2024, Prifysgol Metropolitan Caerdydd<br>• 20 Tachwedd 2024<br>• 26 Mawrth 2025<br>• 25 Mehefin 2025 | | |
| | *Ar y pwynt hwn ymadawodd Alan Jones y cyfarfod.* | | |

**Cofnodion Cyfarfod 20 Mawrth 2024 – cyfarfod caeëdig**

**16. Eitem 17 - Papur cyd-destun a chynghori - CYFRINACHOL**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 16.1 | Cyflwynwyd papur cyd-destun ar y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY) gan y Prif Weithredwr. | | |
| 16.2 | Adroddwyd ar gynlluniau'r Coleg i gyflwyno cyngor cychwynnol lefel uchel ac uchelgeisiol i CADY mewn perthynas â'i ddyletswyddau statudol yn ymwneud â'r Gymraeg.<br>Adroddwyd y sefydlir CADY ar 1 Awst 2024 a bwriedir darparu cyngor cychwynnol yn nhymor yr hydref 2024 cyn i CADY gyflwyno ei gynllun strategol i Lywodraeth Cymru yn Rhagfyr 2024.<br>Amlinellwyd a nodwyd dyletswyddau'r Comisiwn mewn perthynas â'r Gymraeg yn ôl y Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil a'r datganiad o flaenoriaethau strategol gan Lywodraeth Cymru.<br>Argymhellwyd y dylai'r Coleg arwain ar y gwaith o ddatblygu cynllun strategol cenedlaethol sector-gyfan ar gyfer y Gymraeg mewn partneriaeth | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gyda CADY. Bydd cyngor cychwynnol y Coleg i CADY yn cynnwys:<br>i. Datganiad o weledigaeth<br>ii. Blaenoriaethau strategol<br>iii. Cynllun strategol cenedlaethol | | |
| | *Ar y pwynt hwn ymadawodd Nia Elias y cyfarfod* | | |
| 16.3 | Yn ystod y drafodaeth nodwyd nifer o sylwadau gan gynnwys ei fod yn amserol yn sgil pwerau'r Comisiynydd, y Bil Addysg Gymraeg a CADY bod disgwyliad i gynnig mynediad cyfartal a phriodol i ddarpariaeth ddwyieithog. | | |
| 16.4 | Cytunwyd i ystyried yr opsiwn o drefnu cyfarfod rhithiol ym mis Medi i drafod y cyngor cychwynnol drafft i'w gyflwyno i CADY yn yr hydref. | Trefnu cyfarfod rhithiol o'r Bwrdd, petai angen | Medi 2024 |

**17. Eitem 18 – Cyflwyniad gan Prif Weithredwr y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| | *Ar y pwynt hwn ail-ymunodd Nia Elias ac Alan Jones yn y cyfarfod. Croesawyd Simon Pirotte wrth iddo ymuno yn y cyfarfod.* | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 17.1 | Rhoddwyd cyflwyniad ar weledigaeth y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil gan Simon Pirotte, Prif Weithredwr CADY. | | |
| 17.2 | Yn dilyn y cyflwyniad holwyd nifer o gwestiynau gan yr aelodau. | | |
| | *Ar y pwynt hwn ymadawodd Simon Pirotte ac Alan Jones y cyfarfod.* | | |

## 18. Eitem 19 – Trafodaeth (caeëdig)

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 18.1 | Trafodwyd a nodwyd nifer o themâu a ddeilliodd o gyflwyniad Simon Pirotte. | | |
| 18.2 | Diolchwyd i gwmni Cymen am gyfieithu ar y pryd. | | |